



Holiadur Amgylchedd Ysgol (HAY)

Beth yw'r HAY?

Mae'r HAY yn gofyn am y polisiau a'r arferion sydd ar waith mewn ysgol sy'n ymwneud ag iechyd a lles; fe'i cynigir ar yr un cylch 2 flynedd â'r Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr. Gofynnwn iddo gael ei gwblhau gan aelod perthnasol o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, ar ran yr ysgol. Yn 2022 bydd yr arolwg ar agor rhwng **24 Ionawr a 28 Chwefror 2022**. Mae'n electronig fel yn 2019, bydd dogfennau canllaw yn cael eu darparu a bydd cymorth ar gael os oes angen gan y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion (shrn@cardiff.ac.uk) a thimau Ysgolion Iach Lleol.


Iechyd a Lles Myfyrwyr yng Nghymru:
Adroddiad Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr
y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion
2019/20



Mae'r cwestiynau'n ymdrin ag ystod o bynciau iechyd emosiynol a chorfforol ac yn adlewyrchu'r Agwedd Ysgol Gyfan at Iechyd a Lles.

Mae hyn yn seiliedig ar Fodel Ysgolion Hybu Iechyd Sefydliad Iechyd y Byd ac mae'n edrych ar:

sefydliadau ac arweinyddiaeth, ethos ac amgylchedd, dysgu'r cwricwlwm a theulu a chymuned. Dyma'r sail ar gyfer Ysgolion Iach yng Nghymru a chyfeirir ato yn y canllawiau ym Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles a'r Fframwaith ar Sefydlu Dull Ysgol Gyfan ar Gyfer Llesiant Emosiynol a meddyliol.



Bob blwyddyn yn y HAY, mae atodiad o gwestiynau ar thema amserol. Yn 2020 roedd hyn ar ddiwygio'r cwricwlwm yng Nghymru. Yn 2022 mae cwestiynau ar ddiwygio'r cwricwlwm wedi'u cadw, ond yr atodiad iddo yw profiadau COVID-19 a

chynllunio adferiad. Mae hwn wedi'i gyd-gynllunio â'n partneriaid, Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Beth yw gwerth y HAY?

Ar gyfer eich ysgol

Gall cwblhau'r SEQ mewn ysgol weithredu fel archwiliad mewnol o bolisiau ac arferion yn ymwneud ag iechyd. Eleni, am y tro cyntaf, bydd modd arbed ymatebion i'w helpu i'w defnyddio ym mhroses hunanarfarnu'r ysgol.


Rhoddodd Mark Champion o Estyn gyflwyniad yn ein digwyddiadau haf a oedd yn archwilio gwerth yr Holiadur Amgylchedd Ysgol i iechyd ysgolion. Gwnaeth gysylltiadau ar draws y canfyddiadau yng nghyhoeddiad Estyn ['Iach a hapus – effaith ysgol ar iechyd a lles disgyblion'](#)

Mae ei eiriau cloi yn amlygu gwerth ysgolion yn cynnal y ddau arolwg SHRN: mae'r HAY yn rhoi cyfle i ystyried arferion iechyd a lles yn yr ysgol a'r arolwg myfyrwyr fel ffordd o ddal llais y dysgwyr:

'I grynhoi, mae'r llwybr at welliant ar gyfer iechyd a lles disgyblion yn dechrau trwy ddadansoddi'n ofalus yr hyn sy'n digwydd yn yr ysgol a'r hyn y mae disgyblion eu hunain yn ei ddweud wrthym. Yna gallwn weithio gyda disgyblion, eu rhieni, staff ac asiantaethau partner eraill i fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella

Mark Campion Estyn HMI

Ffig. 2 Rôl yr arweinydd iechyd a lles mewn ysgolion sydd ag un arweinydd strategol



C3 Os oes gennych chi un arweinydd neu nifer o arweinwyr iechyd a lles ysgol, beth yw rôl broffesiynol yr unigolyn neu unigolion sy'n arwain?

Sylfaen: Pob ysgol a ymatebodd sydd ag un arweinydd strategol ar gyfer iechyd a lles yn yr ysgol, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (80).

Gallwch wylio ei gyflwyniad yn ei gyfanrwydd yma:

<https://www.shrn.org.uk/events/summer-events-2021/>

Ar gyfer ymchwil iechyd a lles

Mae'r data a gasglwyd yn flaenorol yn 2020 gan ysgolion uwchradd yng Nghymru wedi'i gyhoeddi ar ein [gwefan](#). Mae'n caniatáu ymchwil i effaith polisiâu ac arferion ysgol ar iechyd a lles pobl ifanc a'u

canlyniadau addysgol. Yna caiff y dysgu ei rannu ag ysgolion a'r rhai sy'n eu cefnogi trwy [friffiau ymchwil](#) hawdd eu deall a [gweminarau](#) ill dau yn cael eu storio ar ein gwefan.

Rhannodd Dr Nicholas Page o'n tîm rywfaint o'r data o 2020 mewn cyflwyniad yn [ein gweminar](#) diweddaraf a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2021.

Ar gyfer iechyd a lles pobl ifanc yng Nghymru

Yn yr un gweminar cawsom gyflwyniad gan Dr Julie Bishop, Cyfarwyddwr Gwella Iechyd Iechyd Cyhoeddus Cymru. Ystyriodd werth y data HAY o fewn y Dull Ysgol Gyfan a thynnodd sylw at y rôl sydd ganddo yn genedlaethol:

Deall newid dros amser

Deall yr angen am gefnogaeth ac arweiniad

Deall pa newidiadau i amgylchedd yr ysgol sy'n cael yr effaith fwyaf ar ddeilliannau dysgwyr

Gwerthuso strategaethau a pholisi cenedlaethol a lleol

Unrhyw wybodaeth bellach sydd ei hangen? Cysylltwch â thîm SHRN:

shrn@cardiff.ac.uk neu: www.shrn.org.uk